OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 473 (Cy.63)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*28 Chwefror 2003*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraffau 20 a 21 o Atodlen 5B i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**), a'r eiddo, yr hawliau a'r rhwymedigaethau a drosglwyddir gan y Gorchymyn hwn a ddynodwyd yn y cytundeb rhwng yr awdurdodau gwasanaeth iechyd a'r Byrddau Iechyd Lleol o dan sylw, yn unol â pharagraff 20(2) o Atodlen 5B i Ddeddf 1977, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

bydd i "Awdurdod gwasanaeth iechyd" yr ystyr a roddir i "*Health service authority*" yn adran 20(5) o Atodlen 5B i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "awdurdod iechyd Cymreig" ("*Welsh health authority*") yw awdurdod iechyd a sefydlwyd o dan Orchymyn Sefydlu yr Awdurdodau Iechyd (Cymru) 1996(**2**);

ystyr "cofnodion" ("*records*") yw unrhyw ddeunydd ar ba ffurf neu ba gyfrwng bynnag sy'n cyfleu neu'n gallu cyfleu gwybodaeth ac a strwythurwyd drwy gyfeirio at —

(a) unigolion neu feini prawf sy'n ymwneud ag unigolion, yn y fath fodd bod gwybodaeth benodol sy'n berthnasol i unigolyn penodol ar gael yn hwylus; neu

(b) unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau awdurdod gwasanaeth iechyd, yn y fath fodd bod gwybodaeth benodol sy'n berthnasol i eiddo, hawliau neu rwymedigaethau ar gael yn hwylus;

(**1**) 1977 p.49.
(**2**) O.S. 1996/146.

ystyr "cynnwys" ("*contents*") yw unrhyw eitem neu eiddo o ba ddisgrifiad bynnag sydd —

(a) yn eiddo awdurdod gwasanaeth iechyd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo; a

(b) sydd yn bresennol yn neu ar y tir a ddisgrifir yn Atodlen 2 ar y dyddiad trosglwyddo,

gan gynnwys unrhyw gerbyd neu eiddo symudol a gedwir fel arfer ar y tir hwnnw pan na ddefnyddir ef;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Ebrill 2003;

ystyr "system gyfrifiadurol a rennir" ("*shared computer system*") yw cyfarpar cyfrifiadurol sy'n gweithredu fel rhan o system gyfrifiadurol integredig ac y mae, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, wedi'i leoli yn neu ar fwy nag un o'r parseli o dir a bennir yng ngholofn 1 i Atodlen 1 neu golofn 1 i Atodlen 2, ac sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth a meddalwedd sy'n cael ei ddal ar system o'r fath neu mewn perthynas â hi;

dehonglir "tir" ("*land*") yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978, ac eithrio y dehonglir unrhyw gyfeiriad at drosglwyddo tir yn rhinwedd y Gorchymyn hwn fel ei fod yn cynnwys trosglwyddo unrhyw drwydded dan gontract ar gyfer defnyddio'r tir;

ystyr "trydydd partïon" yw'r ystyr a roddir i ("*third parties*") yn adran 20(4) o Atodlen 5B i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "Ymddiriedolaeth GIG Powys" ("*the Powys NHS Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Sefydlu) 1992(**3**);

(2) Dehonglir bod unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn sy'n trosgwyddo eiddo, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn cynnwys cyfeiriad at drosglwyddo unrhyw hawliau a rhwymedigaethau awdurdod gwasanaeth iechyd sy'n bodoli mewn perthynas â'r eiddo hwnnw yn union cyn y dyddiad trosglwyddo.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw hawliau neu rwymedigaethau awdurdod gwasanaeth iechyd yn cynnwys cyfeiriad at hawliau neu rwymedigaethau a gafwyd neu a dynnwyd gan unrhyw ragflaenydd yr awdurdod hwnnw yn y teitl.

(4) Pan drosglwyddir eiddo, hawliau neu rwymedigaethau awdurdod gwasanaeth iechyd oddi wrth awdurdod gwasanaeth iechyd i Fwrdd Iechyd Lleol yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, bydd unrhyw beth a wnaed gan yr awdurdod gwasanaeth iechyd neu mewn perthynas ag ef mewn cysylltiad â'r eiddo hwnnw, neu'r hawliau a'r rhwymedigaethau hynny yn cael ei drin fe pe bai wedi'i wneud gan y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw neu mewn perthynas ag ef.

Trosglwyddo tir awdurdodau gwasanaethau iechyd i Fyrddau Iechyd Lleol

3. Gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen trosglwyddir y tir a ddisgrifir yng ngholofn 1 o Atodlen 1 oddi wrth yr awdurdod gwasanaeth iechyd a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno i'r Bwrdd Iechyd Lleol a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno.

Trosglwyddo cynnwys tir oddi wrth yr awdurdodau gwasanaethau iechyd i Fyrddau Iechyd Lleol

4.—(1) Ar wahân i'r eithriadau a nodir ym mharagraff (2), gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen trosglwyddir y cynnwys yn neu ar y tir a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 2 oddi wrth yr awdurdod gwasanaeth iechyd a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno i'r Bwrdd Iechyd Lleol a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno.

(2) Dyma'r eithriadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) —

(a) unrhyw gofnodion; a

(**3**) O.S. 1992/2741.

(b) unrhyw system gyfrifiadurol a rennir.

Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth GIG Powys i Fwrdd Iechyd Lleol Powys

5. Gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen trosglwyddir —

(a) tir Ymddiriedolaeth GIG Powys a bennir yn Atodlen 3; a

(b) pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth arall, Ymddiriedolaeth GIG Powys i Fwrdd Iechyd Lleol Powys.

Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau gweddilliol oddi wrth yr awdurdodau iechyd Cymreig i Fwrdd Iechyd Lleol Powys

6.—(1) Mae'r erthygl hon yn ymwneud â —

(a) cofnodion

(b) systemau cyfrifiadurol a rennir;

(c) unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau awdurdod iechyd Cymreig na throsglwyddir hwy yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth arall yn y Gorchymyn hwn.

(2) Trosgwyddir pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth y mae paragraff (1) uchod yn gymwys iddynt ar y dyddiad trosglwyddo oddi wrth yr awdurdodau iechyd Cymreig i Fwrdd Iechyd Lleol Powys.

Torri anghydfodau rhwng awdurdodau gwasanaethau iechyd

7.—(1) Os digwydd anghydfod o ganlyniad i unrhyw drosglwyddo a weithredir o dan y Gorchymyn hwn rhwng dau awdurdod gwasanaeth iechyd neu fwy, caiff unrhyw un o'r awdurdodau gwasanaeth iechyd hynny gyfeirio'r anghydfod at Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn iddo benderfynu arno.

(2) Pan gyfeirir anghydfod at Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff (1) uchod, caiff y Cynulliad ei hun benderfynu arno neu, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol, benodi person i benderfynu'r anghydfod ar ei ran.

(3) Trwy benderfynu ar anghydfod a gyfeirir ato o dan baragraff (1) uchod, caiff y Cynulliad neu, yn ôl y digwydd, y person a benodir o dan baragraff (2) uchod ddatrys yr anghydfod a gosod telerau sy'n rhwymo ar yr awdurdodau gwasanaeth iechyd sy'n rhan o'r anghydfod.

(4) Caiff penderfyniad ar anghydfod a gyfeirir o dan baragraff (1) uchod gynnwys yr amodau hynny (gan gynnwys amodau ynghylch talu) y bydd y Cynulliad neu, yn ôl y digwydd, y person a benodir o dan baragraff (2) uchod yn eu hystyried yn briodol er mwyn datrys y mater sy'n destun yr anghydfod.

Hawliau trydydd parti

8.—(1) Os bydd trosglwyddiad yn rhinwedd y Gorchymyn hwn o unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau yn gweithredu mewn modd sy'n effeithio'n andwyol ar hawliau unrhyw drydydd parti, bydd darpariaethau canlynol yr erthygl hon yn gymwys.

(2) Nid yw'r ffaith bod unrhyw eiddo, hawl neu rwymedigaeth wedi'i drosglwyddo neu ei throsglwyddo yn rhinwedd y Gorchymyn hwn yn ddigonol ynddi ei hun i brofi bod hawliau trydydd parti wedi cael eu heffeithio'n andwyol.

(3) Penderfynir unrhyw anghydfod rhwng trydydd parti ac awdurdod gwasanaeth iechyd yn unol â darpariaethau Deddf Cymrodeddu 1996(**4**) gan gymrodeddwr unigol a benodir drwy gytundeb

(**4**) 1996 p.23.

rhwng y trydydd parti a'r awdurdod gwasanaeth iechyd, neu yn niffyg cytundeb o'r fath, o dan baragraff (4).

(4) Os bydd y trydydd parti a'r awdurdod gwasanaeth iechyd yn methu â chytuno ar benodi cymrodeddwr o dan baragraff (3), caiff y naill neu'r llall ohonynt wneud cais i Lywydd Sefydliad Siartredig y Cymrodeddwyr(**5**) ar y pryd i benodi cymrodeddwr i dorri'r anghydfod rhyngddynt yn unol â Deddf Cymrodeddu 1996.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

Mike German
Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

28 Chwefror 2003

(**5**) Gellir cysylltu â Sefydliad Siartredig y Cymrodeddwyr y Ganolfan Gymrodeddu Ryngwladol, Bloomsbury Square, Llundain, WC1A 2LP, ffôn 020 7421 744 neu e-bost info.@arbitrators.org.

(**6**) 1998 p.38

SCHEDULE 1

Article 3

Land to be transferred from health service authorities to Local Health Boards

Description of land and the title number (where applicable)	**Health service authority in which land is vested on 31st March 2003**	**Local Health Board to which the land is to be transferred on 1st April 2003**
Leasehold property at Churchill House Churchill Way Cardiff comprised in five leases	National Assembly for Wales	Powys Local Health Board
Rights of Occupation at Trenewydd Llandaff Cardiff	National Assembly for Wales	Cardiff Local Health Board
Leasehold premises at Units 17 — 18 and Units 6 and 16 Centre Court Treforest	National Assembly for Wales	Rhondda Cynon Taff Local Health Board
Leasehold premises at Triangle Business Park Merthyr	National Assembly for Wales	Merthyr Tydfil Local Health Board
Leasehold premises at 2 Stanwell Road Penarth	National Assembly for Wales	Vale Local Health Board
Rights of Occupation at St David’s Hospital Carmarthen	Dyfed Powys Health Authority	Powys Local Health Board
Leasehold Premises at Glanmor Terrace	National Assembly for Wales	Carmarthenshire Local Health Board